**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2017**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth<br>Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Dim. |
| **3** | MATERION BRYS | Dim. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | STRATEGAETH DDIGARTREFEDD SIR DDINBYCH 2017-21 | ***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r Strategaeth Ddigartrefedd cyn ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ym mis Ionawr 2018, a'i gweithredu hyd at 2021.* |
| **6** | CYNLLLUN CEFNOGI POBL/ATAL DIGARTREFEDD SIR DDINBYCH 2018/19 | ***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Cefnogi Pobl/Atal Digartrefedd 2018/19, ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ym mis Ionawr 2018, a'i weithredu yn 2018/19.* |
| **7** | CYTUNDEB Y GRONFA GOFAL INTEGREDIG 2017-2020 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi cynnwys yr adroddiad;*<br><br>*(b) cymeradwyo bod y Cyngor yn ymrwymo i'r cytundeb cyfreithiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chwe awdurdod lleol gogledd Cymru, i reoleiddio'r drefn lywodraethol a'r prosesau ar gyfer y gofynion gwario ac adrodd mewn perthynas â TGCh, ac yn*<br><br>*(c) cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'u hystyriaethau.* |
| **8** | GWASANAETH A REOLIR AR | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo –* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2017**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | GYFER DARPARU GWEITHWYR ASIANTAETH | *(a) dechrau'r broses gaffael yn defnyddio Fframwaith ESPO MSTAR2, Rhif 653F;*<br><br>*(b) bod Cyngor Sir Ddinbych yn cydweithio gyda Chyngor Sir y Fflint i arwain a rheoli'r broses gaffael;*<br><br>*(c) bod y pwyllgor archwilio priodol yn derbyn adroddiad gan y swyddogion perthnasol ym mis Ionawr 2018 o ran y broses gaffael a'r dewisiadau amgen sydd ar gael i'r Cyngor yn seiliedig ar y gwerth gorau, a*<br><br>*(d) bod y Cabinet yn derbyn adroddiad i ddyfarnu'r contract i'r cynigiwr sy'n cynnig y budd economaidd mwyaf ym mis Chwefror 2018.* |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni;*<br><br>*(b) cefnogi cyflwyno Achos Busnes Llawn ar gyfer codi ysgol Gatholig newydd ar gyfer disgyblion 3-16 oed i Lywodraeth Cymru (gweler Atodiad 4).* |
| **10** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL | ***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **11** | CONTRACT GWASANAETH BWS LLEOL | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn rhoi caniatâd i Bennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol, ac Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Chludiant Cynaliadwy, i ddyfarnu contractau hyd at y terfyn ac o fewn y gyllideb sydd ar gael yn unol â'r cynigion yn yr atodiad i'r adroddiad. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud mân newidiadau i fanylion y cynllun yn dilyn ymgysylltu'n ffurfiol gyda'r contractwyr ac wrth i'r sefyllfa ddod yn gliriach.* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2017**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
| --- | --- | --- |